Ein Sir y Fflint, Ein Dyfodol 2020 - 2021

Y gyllideb, eich Treth Cyngor a gwasanaethau lleol

Bob blwyddyn mae cynghorau'n gorfod gosod cyllideb sy'n taro cydbwysedd rhwng eu hadnoddau a'u hanghenion gwario. Tan hyn, mae Sir y Fflint, fel pob cyngor, wedi cael llai o gyllid gan lywodraethau o'r naill flwyddyn i'r llall am fwy na degawd. Mae Sir y Fflint, fel un o'r cynghorau sy'n derbyn y lleiaf o gyllid am bob pen y boblogaeth yng Nghymru, yn arbennig o agored i effeithiau caledi cyllidol.

Dros y 12 mlynedd diwethaf, mae Cyngor Sir y Fflint wedi torri nôl ar wariant o **£92M**. Bob blwyddyn, mae'n mynd yn anoddach ac yn anoddach i wneud unrhyw arbedion eraill a diogelu gwasanaethau. Ar adegau, bu'n rhaid gwneud dewisiadau cyllidebol anodd.

O ble daw arian y Cyngor



- Yn dod gan Lywodraeth Cymru
- Yn dod o Dreth y Cyngor
- Yn dod o ffioedd rydym yn eu codi ar gyfer rhai gwasanaethau e.e. ffioedd cynllunio, taliadau gwastraff gardd, ffioedd Swyddfa Gofrestru

£286M

o gyllideb y Cyngor ar gyfer 2020/21 i ddarparu gwasanaethau lleol i bobl leol

Y sefyllfa ariannu genedlaethol ar gyfer 2020/21

Ar 16 Rhagfyr 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gwelliant yn y swm o arian y byddai'n ei roi i bob Cyngor yng Nghymru i dalu am nwyddau a gwasanaethau yn 2020/21. Roedd hyn gyfystyr â £6.559M o arian newydd ar gyfer Sir y Fflint.

Tra mae Sir y Fflint yn parhau i wynebu risgiau ariannol a rhaid iddo barhau â dull o reolaeth ariannol gref, roedd y Setliad yn gam cyntaf pwysig tuag at orffen degawd o s etliadau cyllideb heriol i lywodraeth leol.

Sut y defnyddir arian Treth y Cyngor

Mae'r Dreth y Cyngor yr ydych chi'n ei thalu yn cynyddu bob blwyddyn, ond nid yw'r holl arian a gesglir yn cyfrannu at gostau gwasanaethau'r cyngor. Mae hefyd yn cefnogi'r arian sydd ei angen gan

- 34 o Gynghorau Tref a Chymuned
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Sut mae Treth y Cyngor yn cael ei rhannu rhwng y Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill

£108.4M yw cyfanswm Treth y Cyngor mae'r Cyngor yn disgwyl ei gasglu yn 2020/21:

- **77%** yn cael ei gadw gan y Cyngor i gynnal gwasanaethau lleol
- **3%** yn cael ei gyfrannu tuag at gost Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- **17%** yn cael ei gasglu ar ran Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- **3%** yn cael ei gasglu ar ran ein Cynghorau Tref a Chymuned

Mae Treth y Cyngor o bob un o'r chwe sir yng ngogledd Cymru yn cyfrannu at y Gwasanaeth Tân ac Achub o dan system 'ardoll'. Ein cyfraniad ni eleni fydd £7,968,197. Cynnydd o £177,721 ers y llynedd. Bydd 0.25% arall yn cael ei ychwanegu i biliau Treth y Cyngor i dalu am cynnydd hwn.

Sut mae Treth Cyngor Sir y Fflint yn cymharu â siroedd eraill

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae preswylwyr Sir y Fflint wedi wynebu cynnydd uwch na'r arfer yn Nhreth y Cyngor.

Heb gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, doedd gan y Cyngor ddim dewis ond cyflwyno'r cynnydd er mwyn gosod cyllideb gytbwys gyfreithiol.

Er gwaethaf y cynnydd hwn yn 2019/20, parhaodd Cyngor Treth Sir y Fflint ar lefel is na mwyafrif y Cynghorau eraill.

£39 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru

£183 yn is na'r pris cyfartaledd ein cymdogion yn Lloegr

Y cynnydd yng nghyfran Cyngor Sir y Fflint o Dreth y Cyngor rydych yn ei dalu

Ar ôl wynebu cynnydd mawr yn nhreth y Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi gwneud popeth i gadw'r cynnydd ar gyfer 2020/21 o dan 5%. Gyda'r cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru bu'n bosibl cyflwyno cynnydd mwy derbyniol.

4.5% Y cynnydd angenrheidiol er mwyn i'r Cyngor gau'r bwlch yn y gyllideb ac amddiffyn prif wasanaethau lleol i bobl leol

+

0.25% I godi £177,721 ychwanegol a osodwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

=

4.75%

Ar gyfer eiddo cyfartalog Band D, mae hyn gyfwerth â chynnydd o **£60.83** ar gyfer y flwyddyn gyfan neu **£5.07** y mis

Mantoli'r Cyfrifon ar gyfer 2020/21

£16.315M cyfanswm pwysau cost sy'n wynebu'r Cyngor.

£9.756M y swm y mae'n rhaid i'r Cyngor ei ddarganfod er mwyn cau'r blwch

£6.559M arian *newydd* ychwanegol gan Lywodraeth Cymru

£0.000M ein cyllideb gytbwys

4.68%

Cyfanswm cynnydd Treth y Cyngor

Cyfanswm cynnydd canrannol ar gyfer eiddo cyfartalog Band D gan gynnwys yr arian a gesglir ar gyfer y Cyngor, Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu a Chynghorau Tref a Chymuned.

I gael rhagor o wybodaeth am y gyllideb a gwasanaethau lleol, ewch i:
www.siryfflint.gov.uk/EinSiryFflint20-21

Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council